

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn nos Fawrth, Mai 7fed 2013

Presennol: Huw Antur (Cadeirydd), Dewi Jones (is-gadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, Karl Jones, Alwyn Roberts, , Heledd Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts

Alan Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Arwel Lloyd Jones, Ian Trow, Rhodri Jones

1163 Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod a diolchodd i Huw P Roberts am ei arweiniad ar hyd y flwyddyn ddiwethaf.

1164 Gwnaeth Heledd Jones ddatgan buddiant teulu ym mater gohebiaeth am Fronnant Stores.

1165 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda

1166 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Ebrill 2il, 2013 a derbyniwyd cofnodion Is-bwyllgor Cyllid 18/4/13. Cytunwyd i'r Clerc gynnull cyfarfod o is-bwyllgor y fynwent i drafod materion a godwyd.

1167 Materion yn codi :

- i. Meysydd chwarae di-fwg: daeth yr arwydd i law a chynigiodd Alan Evans i'w osod yn ei le.
- ii. Prosiect bioamrywiaeth yn Ysgol O M Edwards - cafwyd gair o ddiolch gan y Pennaeth; bydd yr ysgol yn cyd-weithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ar y prosiect.
- iii. Hyfforddiant ar y cyd ym Mhenllyn: mynegwyd parodrwydd y Cyngor hwn i rannu hyfforddiant gyda gweddill Cynghorau'r ardal. Yn y cyfamser, mynychodd Huw Antur a Lis Puw (yn enw Llangywer) hyfforddiant buddiol yng Nghaernarfon ar Y Cyngor fel Cyflogwr.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth y bydd y gwaith ar y cwlferth rhwng Rhosyfedwen a'r hen Gapel yn cael ei wneud; bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar gwlfert Deildre.
- v. Toiledau – darllenwyd ymateb o Gyngor Gwynedd am y dreth. Cytunwyd i ofyn i Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf fod yng ngofal yr ased hwn (gyda Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn gyfrifol am unrhyw gostau)
- vi. Lloches bws - derbyniwyd siec gan gwmni Anwyl i'n galluogi i osod Lloches bws newydd. Cytunwyd i symud ymlaen fel bo'r gwaith ar y fynedfa i'r ysgol yn tynnu at ei derfyn.
- vii. Y fynwent – Mae gwaith tacluso'r sbwriel wedi ei wneud ac mae'r Cynghorydd Sir mewn trafodaethau gyda'r adran berthnasol. Mae to'r cwt wedi ei drwsio. Ceisir trwy'r cofnodion hyn atgoffa teuluoedd am eu cyfrifoldeb i sicrhau diogelwch y cerrig ac i wneud gwaith trwsio. Cytunwyd i holi am statws y mynwentydd yn yr yswiriant a delir.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

1168 Gohebiaeth:

Parc Cenedlaethol Eryri

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am gynllun diwygiedig i estyniad Tan y Ffordd, a gwybodaeth bellach fod y caniatâd wedi ei roi.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i estyniad Brynraber
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gynllun dŵr Dolhendre

Gwynedd:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn, ond nid yw'n gwbl berthnasol i ardal sydd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

Un Llais Cymru

- i. Derbyniwyd copïau o *Y Llais*

Heddlu Gogledd Cymru

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgyrchoedd gwisgo gwregys, peidio gyrru dan ddylanwad alcohol na chyffuriau ac ymgyrch gyrru beiciau modur yn ddiogel. Rhoddodd y Cynghorydd Sir wahoddiad i Gynghorwyr a thrigolion roi gwybod iddo am faterion troseddol sy'n eu pryderu, gan ei fod yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Prif Gwnstabl.

Arall:

- i. Derbyniwyd gair o ddiolch am gyfraniad ariannol oddi wrth
 - (1) Llên y Llannau
 - (2) Clwb pêl droed Llanuwchllyn
- ii Cytunwyd i gyfrannu £100 i glybiau Ffermwyr Ieuc Meirionnydd
- iii Enwebwyd Beryl Hughes Griffiths a Huw P Roberts i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfod blynyddol y Neuadd Bentref
- iv Derbyniwyd copi o *Chwarae dros Gymru*
- v Derbyniwyd poster gan Dŵr Cymru yn tynnu sylw at gofnodi gorsafoedd preifat sy'n pwmpio mewn i'r brif system garthffosiaeth.

1169 Materion lleol

- i Rhoddwyd ystyriaeth i lythyr ac i sylwadau am gyflwr Bronnant Stores. Cytunwyd i'r Clerc ohebu ymhellach gyda'r Adran Adeiladau am y mater.
- ii Derbyniwyd sylwadau am y broblem o ymwelwyr yn parcio yn y safle troi bws wrth Y Felin. Ar ôl cadarnhau perchnogaeth y safle hwn, cytunwyd i'r Clerc ohebu neu weithredu am y mater

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

1170 Materion ariannol:

- i. Derbyniwyd taliad cyntaf y Praesept
- ii. Cytunwyd i wneud taliadau'r mis
- iii. Cytunwyd i ofyn i Fantell Gwynedd i weinyddu materion cyflogau
- iv. Mae mater rhent cwt yr hers mewn llaw.

1171 Partneriaeth Penllyn a Chwmni Pum Plwy Penllyn cyf - derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr:

- i. Mae staff wedi eu hapwyntio i wneud gwaith gydag asedau Parc Cenedlaethol Eryri
- ii. Yr Henblas: mae'r gwaith o gasglu arian cyfatebol i uwchraddio'r llawr waelod yn mynd rhagddo ac mae apwyntiadau wedi eu gwneud
- iii. Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd –mae Partneriaeth Penllyn yn chwilio am gyfleoedd pellach i wneud gwaith dros y Cyngor

Cytunwyd fod Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn barod i gyfrannu yn ôl y fformiwla sydd eisoes yn bodoli gyda Partneriaeth Penllyn er mwyn dangos hyder yn y cyfleoedd i drigolion lleol a fydd ar gael yn yr Henblas.